Cyngor sir ddinbych
denbighshire County Council

At: Aelodau'r Cabinet

Dyddiad: 18 Ionawr 2017

Rhif Union: 01824712568

ebost: democrataidd@sirddinbych.gov.uk

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CABINET, DYDD MAWRTH, 24 IONAWR 2017** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN**.

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

**AGENDA**

**RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD**

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT** (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fater a nodwyd yn un i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

**3 MATERION BRYS**

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

**4 COFNODION** (Tudalennau 7 - 14)

Derbyn cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 13 Rhagfyr 2016 (copi'n amgaeedig).

**5 YSGOL GATHOLIG 3-16 ARFAETHEDIG YN Y RHYL** (Tudalennau 15 - 90)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg (copi’n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth i ddechrau cynigion ymgynghori i gau Ysgol Gynradd Gatholig Mair ac Ysgol Uwchradd y Bendigaid Edward Jones ar 31 Awst 2019 ac agor ysgol Gatholig 3-16 newydd ar yr un safle ar 1 Medi 2019.

**6 DIWYGIADAU I ASESIAD LLETY SIPSIWN A THEITHWYR** (Tudalennau 91 - 158)

Ystyried adroddiad **(gan gynnwys atodiad cyfrinachol)** gan y Cynghorydd Hugh Irving, Aelod Arweiniol Cwsmeriaid a Llyfrgelloedd (copi’n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet o’r diwygiadau i gopi drafft o Asesiad Llety Sipsiwn a Theithwyr Sir Ddinbych i’w gyflwyno i Lywodraeth Cymru.

**7 CYNLLUNIAU CYMUNEDOL YN Y CYNGOR NEWYDD** (Tudalennau 159 - 188)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Hugh Evans, Arweinydd ac Aelod Arweiniol yr Economi (copi’n amgaeedig) sy’n cyflwyno model newydd o gynllunio cymunedol ar gyfer y Cyngor.

**8 ADRODDIAD AR Y DEWISIADAU AR GYFER Y DEFNYDD O GARTREF GOFAL PRESWYL AWELON YN Y DYFODOL** (Tudalennau 189 - 314)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Bobby Feeley, Aelod Arweiniol y Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Oedolion a Phlant (copi’n amgaeedig) yn manylu ar y dewisiadau ar gyfer y defnydd o gartref gofal preswyl Awelon yn y dyfodol.

**9 GOSOD RHENT TAI A CHYLLIDEBAU REFENIW TAI A CHYFALAF 2017/18** (Tudalennau 315 - 322)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi’n amgaeedig) yn gofyn am gymeradwyaeth y Cabinet i godi rhent blynyddol tai cyngor Sir Ddinbych ac i gymeradwyo'r Cyfrif Refeniw Tai a Chyllidebau Cyfalaf a Refeniw.

**10 ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL** (Tudalennau 323 - 332)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi'n amgaeedig) yn gofyn am gefnogaeth y Cabinet ar gyfer prosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yng Nghynllun Cyfalaf 2017/18.

**11 CYLLIDEB 2017/18 – CYNIGION TERFYNOL** (Tudalennau 333 - 352)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi’n amgaeedig) yn nodi goblygiadau Setliad Drafft Llywodraeth Leol 2017/18 a chynigion i gwblhau'r gyllideb ar gyfer 2017/18.

**12 ADRODDIAD CYLLID** (Tudalennau 353 - 398)

Ystyried adroddiad gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi’n amgaeedig) yn manylu ar y sefyllfa ariannol ddiweddaraf a’r cynnydd ar strategaeth y gyllideb y cytunwyd arni.

**13 BLAENRAGLEN WAITH Y CABINET** (Tudalennau 399 - 402)

Derbyn Rhaglen Gwaith i’r Dyfodol y Cabinet sydd wedi’i hamgáu, a nodi'r cynnwys.

**RHAN 2 - MATERION CYFRINACHOL**

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD

Argymhellir yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu gwahardd o'r cyfarfod tra bydd yr eitem ganlynol o fusnes yn cael ei hystyried, oherwydd ei bod yn debygol y bydd gwybodaeth eithriedig yn cael ei datgelu fel y'i diffinnir ym mharagraff 12, 13 ac 14 o Ran 4, Atodlen 12A y Ddeddf.

**14 MEDDIANNU AR FANTEISION CYFAMODAU CYFYNGOL AR RODFA'R DWYRAIN, Y RHYL I HWYLUSO DARPARIAETH Y CAM LLETYGARWCH ARFAETHEDIG O'R DATBLYGIAD GLAN Y MÔR** (Tudalennau 403 - 424)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi’n amgaeedig) yn argymell meddiannu cyfamodau cyfyngol i hwyluso darpariaeth y Cam Lletygarwch arfaethedig o Ddatblygiad Glan y Môr, Y Rhyl.

**15 TIR YN TIRIONFA, FFORDD GALLT MELYD, RHUDDLAN** (Tudalennau 425 - 440)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi’n amgaeedig) yn argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo datganiad y fferm a'r tir nad oes ei angen mwyach a'i waredu wedi hynny.

**16 BOD YNYS FARM, RHEWL RHUTHUN** (Tudalennau 441 - 460)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid, y Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad (copi'n amgaeedig) yn argymell bod y Cabinet yn cymeradwyo datganiad y fferm a'r tir nad oes ei angen mwyach a'i waredu wedi hynny.

**MEMBERSHIP**

**Y Cynghorwyr**

| | |
|---|---|
| Hugh Evans | Hugh Irving |
| Julian Thompson-Hill | Huw Jones |
| Eryl Williams | Barbara Smith |
| Bobby Feeley | David Smith |

**COPIAU I'R:**

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth
Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned